# Vale School Governors' Association
# Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro
### and Governor Support Unit

# Cylchlythyr

## Gair gan y Cadeirydd

Yn fy mywyd arall, i ffwrdd o ysgolion, rwyf newydd gwblhau prosiect ymchwil ar gyfer elusen genedlaethol sy'n gweithio gyda phobl ifanc ddifreintiedig ac sydd am adnewyddu ei rhaglenni ar gyfer y normal newydd. Buom yn siarad â llawer o bobl ifanc sy'n wynebu heriau sylweddol, sy'n cael eu dwysáu gan faterion yr aflonyddwch a achoswyd gan y pandemig – pobl ifanc sy'n gadael gofal, gofalwyr ifanc, pobl ifanc ddigartref - ac â'r sefydliadau arbenigol sy'n gweithio gyda nhw.

Yr hyn a ddaeth i'r amlwg yw'r ffordd y mae'r pandemig wedi effeithio ar y bobl ifanc hyn ar adeg dyngedfennol yn eu bywydau, pan fyddant yn gwneud dewisiadau am addysg neu hyfforddiant seiliedig ar waith, yn ceisio dod o hyd i'w swyddi cyntaf, ac yn dechrau ar eu perthynas iawn gyntaf. Mae Covid-19 wedi gohirio hynny ac wedi effeithio ar eu rhyngweithio corfforol dyddiol gyda'u ffrindiau. Soniodd sawl un am y diffyg hwyl yn eu bywydau. Rwy'n ofni y bydd effeithiau hirdymor am flynyddoedd i ddod.

Mae'r tarfu ar fywydau ein dysgwyr yr un mor sylweddol. Wrth i mi ysgrifennu hwn, mae ysgolion uwchradd wedi gorfod canolbwyntio ar y broblem ddyrys o sicrhau bod ein dysgwyr yn cael y graddau y maent yn eu haeddu yn y cyfnod hwn. Mae ysgolion wedi ymateb i'r her o roi systemau teg a chadarn ar waith fel y gall myfyrwyr ddangos eu galluoedd a chael y cymwysterau sydd eu hangen arnynt i barhau â'u bywydau wrth i ni ddysgu byw gydag effeithiau Covid-19.

Rwy'n hynod o falch o'r gwaith y mae athrawon yn ei wneud, yn cynllunio dulliau asesu teg, delio â llawer o waith marcio, a dwyn ynghyd yr holl dystiolaeth sydd ei hangen i sicrhau bod ein dysgwyr yn cael y graddau TGAU a Safon Uwch y maent wedi gweithio mor galed ar eu cyfer. Rydym yn lwcus i gael gweithlu mor ymroddedig.

Gobeithio y bydd llywodraethwyr yn gallu cael rhyw fath o seibiant dros yr haf a dychwelyd yn ôl i'r heriau pellach a ddaw yn yr hydref.

**Dr Martin Price**
**Cadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro ac Is-gadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn**

**Ar y cyd gyda Chyngor Bro Morgannwg**


**Manylion cyswllt:**
**John Sparks**
Pennaeth Cymorth i Lywodraethwyr
Ffôn: 01446 709106 Ffacs: 01446 701820
E-bost: JSparks@valeofglamorgan.gov.uk

**Janine Hoare**
Cynorthwyydd Clerigol
Ffôn: 01446 709107 Fax: 01446 701820
E-bost : JHoare@valeofglamorgan.gov.uk


VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG


Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn cysylltu â ni, sef **VSGA@valeofglamorgan.gov.uk**
Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post:
**VSGA**
**a'r Uned Cymorth i Lywodraethwyr**
**Dysgu a Sgiliau**
**Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton,**
**Y Barri CF63 4RU**



**Rhifyn 49**
**Fro Haf**
**2021**


**Pwyntiau arbennig o ddiddordeb:**

- Sefydlwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lansiwyd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig, ynghyd â 2 gynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr

**Sefydlwyd VSGA i:**

- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu mewn ysgolion yn AALl Bro Morgannwg
- Hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALl
- Gweithio gyda budd-ddeiliaid er mwyn sicrhau adnoddau digonol ar gyfer ysgolion yn yr AALl
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud gyda llywodraethu ysgolion a rheolaeth ac adnoddau ysgolion i awdurdodau a sefydliadau perthnasol

# DIWEDDARIAD ADNODDAU DYNOL I YSGOLION

Rydym wedi anfon polisïau/gweithdrefnau wedi'u diweddaru at benaethiaid yn ddiweddar i adlewyrchu canllawiau/gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru.

## Polisi Cyflogau Ysgol 2020

Mae hwn wedi'i ddiwygio yn dilyn ymgynghoriad â chydweithwyr CCD/undebau llafur, i adlewyrchu dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2020 Llywodraeth Cymru a ailgyflwynodd graddfeydd cyflog statudol cenedlaethol a dychwelyd i godiadau cyflog blynyddol awtomatig, ac eithrio achosion pan gynhelir gweithdrefnau gallu ffurfiol. Mae'r ddogfen hefyd yn dychwelyd symud drwy'r UPR i bob dwy flynedd (mae rhaid i athrawon wneud cais i fynd ar y raddfa gyflog uwch o hyd). Rydym wedi gofyn i benaethiaid gyflwyno'r polisi hwn i lywodraethwyr er mwyn i chi ei fabwysiadau yn eich cyfarfod nesaf (os nad ydych chi eisoes wedi gwneud hynny).

Mae Polisi Rheoli Perfformiad Ysgolion hefyd wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r symud i ffwrdd o gyflog cysylltiedig â pherfformiad ac fe'i hanfonwyd at benaethiaid yr wythnos diwethaf, eto gan ofyn i lywodraethwyr ei fabwysiadu yn eu cyfarfod nesaf.

## Gweithdrefn Disgyblu Ysgolion

Mae'r weithdrefn hon wedi'i diweddaru i adlewyrchu Gweithdrefn Disgyblu Ysgolion 2019 gan Lywodraeth Cymru, eto yn dilyn ymgynghoriad llawn â CCD. Gan ein bod wedi adolygu'r weithdrefn yn 2019 (cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r canllaw) nid oedd newidiadau sylweddol ac eithrio i'r weithdrefn ar gyfer penodi ymchwilydd annibynnol ar gyfer pob honiad yn ymwneud ag amddiffyn plant, sy'n adlewyrchu bod Llywodraeth Cymru yn tynnu'r gwasanaeth ymchwilio annibynnol yn ôl a bod angen i lywodraethwyr benodi rhywun.

I'ch atgoffa, mae'r weithdrefn ddisgyblu yn gofyn am ddirprwyo nifer o gyfrifoldebau cyrff llywodraethu i unigolion ac i'r dirprwyaethau hynny gael eu nodi. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Dirprwyo swyddogaethau camymddwyn llai difrifol** – i'r pennaeth

**Dirprwyo holl swyddogaethau'r corff llywodraethu yn ystod y broses ddisgyblu/diswyddo (gan gynnwys penodi ymchwilydd annibynnol/honiadau o gam-drin plant/tynnu gwaharddiad)** – i gadeirydd y llywodraethwyr

Atgoffir llywodraethwyr hefyd bod angen sicrhau eu bod yn sefydlu'r ddau bwyllgor statudol sy'n ofynnol fel rhan o'r weithdrefn uchod, sef y pwyllgor disgyblu a diswyddo staff a'r pwyllgor apeliadau disgyblu a diswyddo staff. Mae angen o leiaf 3 llywodraethwr gwahanol ar bob pwyllgor ar gyfer gwrandawiad ac argymhellir penodi cronfa ddigonol o lywodraethwyr cyn gynted â phosibl bob blwyddyn academaidd.

Eto, mae hyn wedi'i anfon at benaethiaid i'w fabwysiadu'n ffurfiol/nodi gan y corff llywodraethu. Gellir cael gafael ar ganllaw Llywodraeth Cymru yn:

**https://llyw.cymru/gweithdrefnau-disgyblu-diswyddo-staff-ysgol**

**https://llyw.cymru/gweithdrefnau-disgyblu-diswyddo-staff-ysgol?_ga=2.178334820.1561396671.1619685973-1311528072.1612796483**

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am y materion uchod, cysylltwch â'ch Partner Busnes Adnoddau Dynol neu fi.

**SUE ALDERMAN**

**Prif Bartner Busnes AD stalderman@valeofglamorgan.gov.uk**

# Cymorth TGCh a Data - Darparu cymorth hanfodol i ysgolion yn ystod Covid-19

Yn ystod y cyfnod cloi cyntaf yn ôl ym mis Mawrth 2020 caeodd ysgolion, a drafftiwyd y tîm i helpu'r adran TGCh Corfforaethol, gan gynnig cymorth ffôn ac e-bost amhrisiadwy i'r llu o gydweithwyr ar draws y cyngor cyfan y bu rhaid iddynt weithio o gartref. Bu'r tîm yn ymdrin â phroblemau megis pan oedd gan staff broblemau cysylltiad e-bost a thrafferthion gyda'r systemau hanfodol a ddefnyddir o ddydd i ddydd.



Ar ôl treulio sawl wythnos ar y gwaith hwn, dychwelodd y tîm i'r adran 'Dysgu a Datblygu' lle cynhaliwyd prosiect enfawr i ailwampio hen liniaduron mewn ysgolion i'w benthyg neu eu rhoi i blant sydd wedi 'Hallgáu'n Ddigidol' ledled yr awdurdod lleol. Yn ogystal â'r dyfeisiau hyn, dosbarthwyd dyfeisiau BT Mi-fi i'r bobl nad oedd ganddynt fynediad at y rhyngrwyd gartref er mwyn sicrhau'r cysylltiadau hollbwysig hynny rhwng y cartref a'r ysgol ar gyfer dysgu o bell.

Bu cyfle y mis Ionawr hwn i greu tair swydd Kickstarter newydd i helpu i gryfhau a chefnogi'r tîm presennol. Ers iddynt ymuno â'r tîm ym mis Chwefror, mae eu cyfraniad wedi cynorthwyo'n aruthrol y cymorth bob dydd yr ydym yn ei gynnig i ysgolion, ac mae hefyd wedi galluogi'r tîm i wella eu hamseroedd ymateb i'r problemau technegol sy'n codi ar draws yr awdurdod. Mae cyfraniad y staff Kickstarter at y tîm ehangach wedi bod yn amhrisiadwy gyda'r prosiectau graddfa fawr sydd ar y gweill ac sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd.

Pan ddechreuodd ysgolion ddychwelyd ar ôl diwedd y cyfnod cloi cyntaf, ac wrth ddechrau tymor yr hydref, roedd gwaith eisoes yn mynd rhagddo gyda phrosiect buddsoddi sylweddol ar y cyd â Llywodraeth Cymru, tuag at adnewyddu cyflenwad dyfeisiau mewn ysgolion. Hyd yma, mae 854 o ddyfeisiau Apple, 1321 o ddyfeisiau Windows a'r ffigwr rhyfeddol, 4385 o ddyfeisiau Chromebook wedi eu rhoi i'n hysgolion drwy'r prosiect, a hyn i gyd gan ein tîm Technegol TGCh Ysgolion. Dyma'r prosiect mwyaf y mae'r tîm wedi gweithio arno erioed ac mae ymroddiad pawb a gyfrannodd wedi bod yn anhygoel. Gyda'r llwyth diwethaf gan gyflenwyr, danfonwyd dros 2600 o ddyfeisiau Chromebook y mis diwethaf, wedi eu cludo at ddrws cefn Swyddfeydd Dinesig y Barri, lle bu rhaid i'r tîm storio'r holl gyfarpar yn rhywle diogel, ond hefyd ei ddosbarthu i ysgolion. Gyda chydlyniad ac ymdrech anhygoel, llwyddodd y tîm i gwblhau'r dasg o fewn tridiau ar ôl i'r cyfarpar gyrraedd. Dyma lwyddiant y dylai pawb a gyfrannodd fod yn hynod falch ohono, ac mae'r tîm nawr yn disgwyl i'r llwyth anferth nesaf o gyfarpar gyrraedd yn barod i'w ddosbarthu yn gynnar ym mis Gorffennaf.

Gyda thirwedd newidiol maes technoleg sy'n datblygu o hyd, a'r llwyth sylweddol o gyfarpar a ddosbarthwyd i ysgolion, mae cyfle gwych wedi codi i'r tîm hefyd, i fwrw ymlaen gyda'i gynlluniau i gofrestru'r holl ddyfeisiau ym mhob ysgol mewn system chwyldroadol a fydd yn gwneud rheoli technoleg yn llawer mwy effeithlon.

Mae Microsoft Intunes yn gwneud llawer i wella gweithrediadau TGCh eich ysgol. Er enghraifft, bydd gosod meddalwedd ar yr holl ddyfeisiau wedi'u cofrestru yn dileu'r angen gwneud hyn fesul dyfais. Bydd hyn hefyd yn galluogi'r tîm i reoli diweddariadau'n hawdd er mwyn sicrhau meddalwedd a rhaglenni cyfredol i bob defnyddiwr. Yn ogystal, gall Intune dracio trwyddedau, casglu gwybodaeth am gyflunio caledwedd a gosodiadau meddalwedd. Yn y pen draw bydd hyn yn golygu y daw Microsoft Intune ag awyrgylch gwaith gwell ar bob lefel. Rydym yn credu y cewch lwyfan cynhwysfawr a diogel sy'n gwella profiad y defnyddiwr heb fod hynny ar draul eich adnoddau. Bydd yn eich galluogi i symleiddio defnyddio apps ar yr holl ddyfeisiau gan ddiogelu eich gwaith. Mae hyn yn hynod bwysig i bawb yn enwedig gyda nifer gynyddol o staff yn cael mynediad at yr ysgol a'u gwaith o bell. Rydyn ni'n credu bod cyflawni gwell effeithlonrwydd yn y cwmwl a gwella cynhyrchiant yn bethau y gall Microsoft Intune eu gwneud ar gyfer ein hysgolion, ac ar y cyd â Llywodraeth Cymru, rydyn ni'n credu bod hynny'n rhoi mantais i ni dros ein cystadleuwyr fel tîm cymorth, gan roi'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi ar flaen y gad!

**I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw beth y soniwyd amdano yma, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm ar 01446 709566.**

## CORONAFEIRWS A FI

Ym mis Ionawr 2021, cynhaliodd Comisiynydd Plant Cymru ail arolwg cenedlaethol, Coronafeirws a Fi, i gasglu barn a phrofiadau plant a phobl ifanc yng Nghymru yn ystod yr ail gyfnod cloi.

Cwblhaodd cyfanswm o 19,737 o blant a phobl ifanc 3-18 oed yr arolwg ac mae’r Comisiynydd Plant wedi cyhoeddi adroddiad mewn ymgais i sicrhau bod pawb sy'n gwneud penderfyniadau ac yn cefnogi plant yng Nghymru bob dydd yn deall eu profiadau. Ym Mro Morgannwg, ymatebodd cyfanswm o 1,245 o blant a phobl ifanc i'r arolwg. Mae adroddiad data awdurdod lleol hefyd ar gael.

Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau am emosiynau plant, iechyd meddwl, cymorth lles, addysg, gwasanaethau ehangach, gwybodaeth, chwarae a hamdden. Bydd y canfyddiadau'n ddefnyddiol i ystod eang o wasanaethau ac adrannau ym mhob rhan o’r awdurdod gan gynnwys addysg, iechyd y cyhoedd, gwaith ieuenctid a chymorth ieuenctid, gwasanaethau plant, timau cyfathrebu, a thimau chwarae a hamdden.

Crëwyd ffeithluniau i gyd-fynd ag adroddiad data'r awdurdod lleol a'r arolwg llawn o ganlyniadau'r arolwg cenedlaethol gan y prosiect Cenhadon Hawliau a hwyluswyd gan Wasanaeth Ieuenctid y Fro. Mae'r wybodaeth hon wedi'i rhannu gydag arweinwyr addysg ac anogir llywodraethwyr ysgol i ddarllen yr adroddiadau. Mae copïau o'r adroddiad cenedlaethol i'w gweld ar wefan comisiynydd plant Cymru **https://www.complantcymru.org.uk/coronafeirws-ein-gwaith/coronafeirws-a-fi-canlyniadau-ein-holiadur-ionawr-2021/.**

---

## DIWEDDARIAD BIG FRESH








Ers ein diweddariad diwethaf, mae pethau wedi mynd o nerth i nerth mewn cyfnod digynsail iawn i'r diwydiant lletygarwch. Yr ydym ni, yn wahanol i gynifer dros y flwyddyn ddiwethaf, wedi llwyddo i addasu i'r hyn a daflwyd atom gan wthio'r cwmni i gyfeiriadau newydd na allem ond bod wedi breuddwydio amdanynt ychydig yn ôl.

Mae ochr fasnachol ein cwmni yn ffynnu wrth i ni barhau i fwydo ein cwsmeriaid ffyddlon a newydd gyda'n blychau rhannu blasus. Os nad ydych eisoes wedi rhoi cynnig ar un, byddwn yn argymell yn fawr eich bod yn gwneud hynny. Wedi’r flwyddyn ddiwethaf a brofwyd gan bob un ohonom, beth am sbwylio eich hun!

Efallai eich bod wedi clywed bod y Big Fresh Catering Company bellach wedi lledu ei adenydd i ymgymryd â'i leoliad masnachol cyntaf sef caffi Pier Penarth. Mae Big Fresh @ the Pier wedi bod ar agor ers tua 5 wythnos bellach ac mae wedi bod yn anhygoel dechrau arni yn yr adeilad eiconig hwn sydd wedi bod yn rhan o'r gymuned ers blynyddoedd lawer. Ein hamser ni yw hi bellach i ddarparu lle i bobl Penarth a'r ardaloedd cyfagos y gallant ymweld ag ef a phrofi rhywfaint o fwyd o safon gan gynnwys cacennau cartref anhygoel, gwasanaeth cyfeillgar a choffi gwych wrth ymgolli yn y dirwedd hardd y gosodwyd yr adeilad celf deco hwn ynddi. Mae ein drysau ar agor 7 diwrnod yr wythnos felly gwnewch yn siŵr eich bod yn dod i'n gweld yn fuan.

# GWASANAETH GWYBODAETH I DEULUOEDD Y FRO

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro
Vale Family Information Service

**Helo gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn y Fro,**
Ni yw Y gwasanaeth i gael gwybodaeth am ddim y gellir ymddiried ynddi am beth sy'n bwysig i deuluoedd yn y Fro o 0 i 18 oed. Cyfeirir at y gwasanaeth fel GGiD y Fro ac rydym yn wasanaeth statudol o fewn Cyngor y Fro sy'n darparu gwybodaeth am ofal plant, gweithgareddau, gwasanaethau a chymorth i deuluoedd sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc ledled Bro Morgannwg.



Dros y flwyddyn ddiwethaf mae ein tîm o 5 wedi gweithio o gartref i ateb dros 2,600 o ymholiadau gan rieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol! Byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech barhau i annog uwch reolwyr, athrawon a staff cymorth sy'n gweithio ar draws ein hysgolion i feddwl am ein gwasanaeth fel hyb gwybodaeth, nid yn unig i gefnogi'r teuluoedd yn eu gofal, ond hefyd iddyn nhw yn eu rôl fel gweithwyr addysg proffesiynol. I gael gwybod mwy amdanom ni a'r hyn a wnawn, beth am edrych ar ein fideo newydd sbon? Gallwch wylio'r animeiddiad fideo o'n hafan GGiD (www.valeofglamorgan.gov.uk/ggd).

Yn y cyfamser, hoffem rannu ychydig o ddiweddariadau gyda chi cyn y gwyliau ysgol:

## HGOFAL PLANT A GWEITHGAREDDAU YN YSTOD Y GWYLIAU

Mae'r holl Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (GGiD) ledled Cymru wedi cydweithio i lansio gwefan GGiD Cymru (http://www.ggd.cymru), llwyfan ar-lein sy'n caniatáu i'r cyhoedd ddod o hyd i wasanaethau sy'n gysylltiedig â gofal plant yn eu hardal. P'un a ydynt yn chwilio am warchodwr plant, meithrinfa ddydd neu glwb gwyliau er enghraifft, gallant roi eu cod post a dod o hyd i'r lleoliad agosaf atynt. Ynghyd â diweddaru gwefan GGiD Cymru yn rheolaidd rydym hefyd yn curadu rhaglen gweithgareddau gwyliau; canllaw cynhwysfawr 'beth sy’ mlaen' i deuluoedd yn y Fro a'r cyffiniau dros 6 wythnos yr haf. Gall rhieni a gweithwyr proffesiynol danysgrifio i dderbyn y rhaglen hon drwy ein hafan GGiD a dan y pennawd 'Rhaglen Gweithgareddau’r Gwyliau' (www.valeofglamorgan.gov.uk/fis).



## EICH SIOE DEITHIOL GYMUNEDOL

AFel gyda'r rhan fwyaf o bethau bu'n rhaid canslo ein digwyddiadau haf arferol eto eleni, mewn ymdrech i geisio cysylltu â chymunedau lleol gymaint ag y gallwn fe weithion ni gyda chydweithwyr yn y Tîm Chwarae yn y Fro (www.valeofglamorgan.gov.uk/chwaraeon) i deithio o gwmpas y Fro.

Rydym am gael gwybod pa gyfleoedd a gwybodaeth yr hoffai’r cyhoedd eu gweld ar gyfer plant a theuluoedd yn eu hardal fel y gallwn fodloni anghenion ein cymunedau yn y Fro gystal â phosib mewn tirwedd ôl-bandemig. Roedd ein stop cyntaf ar ein sioe deithiol gymunedol yn Cogan (llun wedi’i amgáu). Cadwch lygad amdanom yn Llanilltud Fawr ac ardaloedd eraill o'r Fro. Os hoffech i ni ddod i'ch ardal chi, cysylltwch â ni (manylion cyswllt isod).

### Y MYNEGAI I BLANT AG ANABLEDDAU NEU ANGHENION YCHWANEGOL

Mae'r Mynegai (www.valeofglamorgan.gov.uk/ymynegai) yn parhau i ddarparu ffynhonnell werthfawr o wybodaeth i deuluoedd sydd â phlant ag anableddau neu anghenion ychwanegol ar y gwasanaethau, y cymorth a'r gweithgareddau sydd ar gael ar draws Bro Morgannwg. Mae'r Mynegai yn cefnogi unigolion o 0 hyd at 18 oed ac nid oes angen iddynt gael diagnosis wedi'i gadarnhau. Gall rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol gofrestru plentyn i'r Mynegai (gyda chaniatâd y rhieni) ar-lein. Ar hyn o bryd mae dros 800 o unigolion wedi'u cofrestru gyda'r Mynegai a thrwy gofrestru maent yn elwa o'r cylchlythyr ac e-fwletinau rheolaidd sy'n rhoi gwybod iddynt am grwpiau, gweithgareddau a gwasanaethau newydd sy'n lleol iddynt. Disgwylir i rifyn yr haf o gylchlythyr Y Mynegai gael ei ryddhau ddechrau mis Gorffennaf. Bydd cylchlythyr yr haf yn cynnwys gwybodaeth allweddol am y cynlluniau chwarae a'r clybiau gwyliau penodol, gwybodaeth hygyrch am gyflwyno'r system ADY newydd ym mis Medi ac erthygl ar bontio yn 16 oed a hŷn. I gael rhagor o wybodaeth gweler y fideo diweddaraf (https://vimeo.com/554195620).



Roedd ein Swyddog Mynegai, Lyndsey Richards, yn falch iawn o fynychu Ysgol Gynradd Gwenfo ym mis Mai gyda chydweithiwr o'r tîm Chwaraeon Anabledd. Fe wnaeth y plant gymryd rhan mewn gwahanol senarios a oedd yn eu galluogi i feddwl am sut y gallent fod yn fwy cynhwysol wrth chwarae gyda ffrindiau anabl. Fel y gwelwch o'r llun, fe wnaeth pawb fwynhau'r hyfforddiant yn fawr!

Os hoffech wybod mwy ewch i'n tudalennau gwe neu dilynwch i ni ar y cyfryngau cymdeithasol ar Facebook (@VOGFIS) a Twitter (@Valefis) i weld ein diweddariadau dyddiol ar newyddion teuluol y Fro.

**MANYLION CYSWLLT**
Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro
01446 704704
**fis@valeofglamorgan.gov.uk**
**www.valeofglamorgan.gov.uk/ggd**

---

## Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Ieuenctid yn mynd ar-lein!

Yn nhymor y gwanwyn yn 2021 mae Gwasanaeth Ieuenctid y Fro wedi llwyddo i hyfforddi 28 o athrawon a gweithwyr proffesiynol mewn Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Ieuenctid.

Mae bod yn Swyddog Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl yn eich helpu i adnabod arwyddion cynnar problemau iechyd meddwl, ac anogir pobl ifanc i siarad â Swyddog Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl a cheisio cymorth. Bydd hyn yn helpu i leihau'r effaith ar yr unigolyn a'r bobl o gwmpas yr unigolyn, ac yn hwyluso gwellhad cyflymach mewn amgylchedd cefnogol.

Cyflwynwyd y cwrs ar-lein am y tro cyntaf eleni oherwydd cyfyngiadau pandemig Covid-19. Cwblhaodd y cyfranogwyr chwe modiwl ar-lein ynghyd â dau weminar dros Microsoft Teams.

Mae adborth gan gyfranogwyr wedi bod yn gadarnhaol iawn gyda rhai'n dweud "Rwy'n sicr yn teimlo mewn sefyllfa well i ddelio â sefyllfa pe bai rhywbeth yn codi".

I gael rhagor o wybodaeth am y cwrs, cysylltwch â'r Gwasanaeth Lles Ieuenctid drwy e-bostio
**youthwellbeing@valeofglamorgan.gov.uk**

Lles Ieuenctid Youth Wellbeing

mental health first aid wales

## Cynnig Gofal Plant Cymru

Yn dilyn trafodaeth lwyddiannus gyda Llywodraeth Cymru yn 2018, cychwynnodd y Cyngor gynlluniau i gyflwyno'r Cynnig Gofal Plant i blant cymwys ar draws Bro Morgannwg.

Mae Cynnig Gofal Plant Cymru yn golygu y gall y rhan fwyaf o rieni plant 3 i 4 oed sy'n gweithio bellach hawlio cyllid tuag at gost gofal plant. Mae'r cynnig yn darparu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant cyfunol i rieni cymwys. Mae'r 30 awr yn y Fro yn cynnwys hyd at 12.5 awr yr wythnos o addysg feithrin sy'n cael ei hategu gan 17.5 awr o ofal plant yr wythnos.

Mae ar gael am 48 wythnos o'r flwyddyn, sy'n golygu y gall y Cynnig gefnogi rhieni sy'n gweithio gyda gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol.

Rhaid i leoliadau gofal plant fod wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a rhaid iddynt fod wedi'u cofrestru i ddarparu'r cynnig.

Gwnaeth y Cyngor hefyd gais llwyddiannus am gyllid gan Lywodraeth Cymru i adeiladu tair uned gofal plant i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cynnig ledled y Fro, lle nodwyd prinder gofal plant. Rhoddwyd cyfanswm o £1.8 miliwn i'r Cyngor i adeiladu unedau yn Ysgol Gynradd Gladstone, Ysgol Gymraeg Dewi Sant ac Ysgol Gynradd Llanfair.

Mae cydweithwyr o bob rhan o'r Cyngor wedi bod yn datblygu'r cynlluniau hyn ers 2019. Er bod COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar waith y Cyngor, mae gwaith wedi parhau i fynd rhagddo.

Cwblhawyd uned gofal plant Gladstone Bach ar 18 Rhagfyr 2020. Dechreuodd cyfnod clo ar unwaith ar 20 Rhagfyr 2020 a olygai fod cynlluniau i gofrestru'r adeilad gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a chwblhau'r manylion terfynol wedi'u gohirio. Fodd bynnag, mae cydweithwyr yn y Cyngor o dîm y Blynyddoedd Cynnar wedi gallu cefnogi'r ysgol i sefydlu'r Cynnig Gofal Plant, yr offer sydd ei angen a'u cais i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i gofrestru'r Uned Gofal Plant. Y gobaith yw y bydd Gladstone Bach yn cael ei chofrestru yn ystod haf 2021 gyda'r bwriad o groesawu plant ym mis Medi 2021. Mae lansiad swyddogol yr uned gofal plant yn cael ei gynllunio ar hyn o bryd.




Hyd yn oed gyda'r holl broblemau o ran datblygu'r unedau gofal plant yn Ysgol Gymraeg Dewi Sant ac Ysgol Gynradd Llanfair, drwy natur benderfynol y rhai sy'n gysylltiedig, disgwylir i'r ddwy uned gofal plant gael eu cwblhau yn ystod haf 2021. Bydd yr uned yn Llanfair yn debyg o ran ei dyluniad i Gladstone Bach. Bydd yr uned gofal plant yn Ysgol Gymraeg Dewi Sant yn cael ei hadeiladu gan ddefnyddio dulliau adeiladu modern a bydd yn ategu adeilad newydd presennol yr ysgol. Mae'r uned yn cael ei hadeiladu oddi ar y safle ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gosod ar y safle dros gyfnod o 3 diwrnod, gan gyfyngu ar darfu ar staff a disgyblion.

Bydd ceisiadau i gofrestru gydag AGC ar gyfer y ddwy uned yn cael eu cyflwyno yn yr haf gyda'r bwriad o groesawu plant o fis Ionawr 2022.

Dim ond drwy ymroddiad ac ymrwymiad gwahanol gydweithwyr y mae'r cynnydd hwnnw wedi datblygu mor llwyddiannus ag y mae wedi'i wneud.

**DEBBIE MAULE**

**Cydlynydd Partneriaeth Plant**

## Y wybodaeth ddiweddaraf am y system Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r Gweinidog Addysg wedi **cyhoeddi** heddiw bod y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r rheoliadau cysylltiedig wedi'u gosod gerbron Senedd Cymru.

Gallwch weld y Cod, Memorandwm Esboniadol a'r Asediad Effaith Integredig yma a'r rheoliadau cysylltiedig yma:

- Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021
- Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021
- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021
- Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021
- Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021

Gallwch ddarganfod mwy am y rhaglen drawsnewid ADY a chanllawiau ar y system AAA gyfredol **yma** gan gynnwys ein **cwestiynau cyffredin** a'n **canllaw rhaglen trawsnewid ADY.**

Danfonwch eich ymholiadau i **SENReforms@gov.wales**

---

## Sefydlu dull ysgol-gyfan o ymdrin ag iechyd a lles meddyliol

Nawr yn fwy nag erioed, rhaid i les emosiynol a meddyliol ein plant a'n pobl ifanc a'n gweithlu fod yn brif flaenoriaeth i ni.

Bwriedir i'r **Fframwaith newydd ar sefydlu dull ysgol-gyfan o ymdrin â lles emosiynol a meddyliol** yw cefnogi ysgolion, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) a lleoliadau addysg i adolygu eu sefyllfa eu hunain o ran lles, a datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â'u gwendidau ac adeiladu ar eu cryfderau.

**Dyma lythyr sydd wedi'i anfon at Gyfarwyddwyr Addysg.**

**SUT GALLWCH EIN CEFNOGI NI!**

Gallwch gefnogi'r ymgyrch drwy:

- rhannu ac ail-drydar negeseuon o'n sianeli cyfryngau cymdeithasol: Twitter; Facebook Addysg Cymru ac Facebook Mae addysg yn dechrau gartref
- Rhestr Chwarae YouTube Dull ysgol-gyfan - Rhannwch ein hanimeiddiadau gyda dysgwyr ac astudiaethau achos gyda'r gweithlu
- cynnwys gwybodaeth ar eich gwefan, mewn cylchlythyrau, negeseuon e-bost
- rhannu gyda'ch rhwydweithiau / pobl ifanc / rhanddeiliaid / rhieni/gofalwyr

**TESTUN AR GYFER CYLCHLYTHYRAU**

**Sefydlu dull ysgol-gyfan o ymdrin ag iechyd a lles meddyliol**

Mae'r dull ysgol gyfan yn ymwneud â chefnogi lles emosiynol a meddyliol da drwy wneud cydberthnasau'n gryfach:

- rhyngoch chi a'ch athrawon;
- a rhwng rhieni, teuluoedd, gofalwyr, ac unrhyw weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r ysgol

Mae ein fframwaith statudol newydd yn cefnogi pawb i sicrhau bod iechyd meddwl a lles emosiynol cadarnhaol pob dysgwr a aelod o staff wrth wraidd pob ysgol

**NEGESEUON CYFRYNGAU CYMDEITHASOL**

**Ar gyfer rhanddeiliaid**

Mae meithrin cydberthnasau cryfach a chefnogi ein gilydd wrth wraidd y #WholeSchoolApproach newydd i fframwaith iechyd meddwl a lles emosiynol **https://bit.ly/3vkgF5n**

**Ar gyfer dysgwyr**

Animeiddiad newydd yn esbonio sut y gall perthynas gryfach gyda'ch ffrindiau a'ch athrawon eich helpu a'ch cefnogi **https://bit.ly/3lfa1bW #DullYsgolGyfan**

Cofiwch ein tagio yn @WG_Education @LLCAddysg
A defnyddiwch yr hashnod #DullYsgolGyfan

**CYMORTH A CHEFNOGAETH BELLACH I BOBL IFANC**

Gallwch gyfeirio pobl ifanc at ein Pecyn Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc os oes angen cymorth arnynt nawr ac yn y dyfodol.

Llawer o ddiolch

# GWASNAETH IEUENCTID Y FRO

# YMUNWCH Â PHROSIECT CYFRANOGIAD IEUENCTID HEDDIW

GWIRFODDOLI
DYSGU SGILIAU NEWYDD
CAEL PROFIADAU NEWYDD
CWRDD Â FFRINDIAU NEWYDD

- YDYCH CHI RHWNG 16 A 25 OED?
- Â DIDDORDEB MEWN HAWLIAU PLANT?
- YN FRWD DROS EICH CYMUNED?
- EISIAU GWNEUD GWAHANIAETH?
- EWCH I VOGBLOG.CYMRU I GAEL RHAGOR O WYBODAETH

## CYNGOR IEUENCTID LLANILLTUD FAWR

Grŵp o bobl ifanc 11-18 oed sy'n byw, yn gweithio neu'n mynd i'r ysgol yn Llanilltud Fawr ac sy'n dylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yn y dref drwy drafod materion pwysig gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Mae aelodau Cyngor Ieuenctid Llanilltud yn cynrychioli eu cyfoedion, ysgolion lleol, a sefydliadau a chlybiau ieuenctid.
E-bost: VALEYOUTHACTION@GMAIL.COM

## GRŴP GWEITHREDU IEUENCTID PENARTH

Grŵp o bobl ifanc 11-18 oed sy'n byw, yn gweithio neu'n mynd i'r ysgol ym Mhenarth ac sy'n rhoi camau ar waith i wella eu tref a sicrhau bod y sawl sy'n gwneud penderfyniadau'n lleol yn clywed barn pob ifanc. Mae aelodau Grŵp Gweithredu Ieuenctid Penarth yn cynrychioli eu cyfoedion, ysgolion lleol, a sefydliadau a chlybiau ieuenctid.
E-bost: VALEYOUTHACTION@GMAIL.COM

## CENHADON HAWLIAU

Mae'r prosiect Cenhadon Hawliau yn codi ymwybyddiaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc. Mae'r prosiect yn rhoi cyfle i bobl ifanc ledled Bro Morgannwg i wneud cyfraniad cadarnhaol at eu cymuned leol.
E-bost: ALEXTHOMAS@VALEOFGLAMORGAN.GOV.UK

## CABINET IEUENCTID

Llais etholedig pobl ifanc sy'n byw ym Mro Morgannwg yw'r Cabinet Ieuenctid ac mae'n cyfleu barn y bobl ifanc hynny i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghyngor Bro Morgannwg.
E-bost: VALEYOUTHCABINET@GMAIL.COM

@vysvale

"MAE GENNYCH HAWL I RANNU EICH BARN YNGHYLCH POB MATER SY'N EFFEITHIO ARNOCH CHI AC I'CH BARN GAEL EI CHYMRYD O DDIFRIF"
(ERTHYGL 12 CCUHP)

# Aelodaeth y Pwyllgor Rheoli 2020-22

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys llywodraethwr etholedig ynghyd â'r ddau Gynrychiolydd Rhiant-Llywodraethwr (un yr un o'r sectorau cynradd ac uwchradd).

| Rhif | Teitl | Blaenly thyren | Cyfenw | Ysgol |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Mr | R | Bailey | Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Llanbedr y Fro |
| 2 | Dr | C | Brown | Llantwit Major Comprehensive |
| 3 | Mr | N | Craggs | Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Gwenfô |
| 4 | Mrs | M | Gibbs | Ysgol Gynradd Romilly |
| 5 | Mr | A | Hennessey | Ysgol Gynradd Oak Field ac Ysgol Sant Baruc |
| 6 | Mrs | S | Hodges | Ysgol Sant Baruc |
| 7 | Mrs | S | Jenkins-Welch | Ysgol Gynradd C/W St Andrews Cynhwysfawr St Cyres |
| 8 | Mrs | J | Lynch-Wilson | Ysgol Gynradd St Athan |
| 9 | Mrs | A | Males | Ysgol Gyfun Sant Cyres |
| 10 | Mrs | A | Malkin | Ysgol Gynradd Gladstone. |
| 11 | Dr | M | Price | Ysgol Uwchradd Gatholig Richard Gwyn Sant |
| 12 | Mr | D | Treharne | Ysgol Gynradd Llansannwyr yr Eglwys yng Nghymru |
| 13 | Mrs | T | Vaughan-Taylor | Ysgol Gyfun y Bont-Faen |
| 14 | Mrs | S | Williams | Ysgol Gynradd yr Holl Saint yr Eglwys yng Nghymru |
| 15 | Cllr Mr | M | Wilson | Ysgol Gynradd Fairfield ac Ysgol Gynradd Victoria |
| | | | | |
| **PGR = Cynrychiolwyr Rhieni Llywodraethwyr** | | | | |
| PGR - Prim Gwag | | | | |
| PGR - Sec Gwag | | | | |

**CWRICWLWM I GYMRU - Adnoddau ar gyfer Llywodraethwyr**

**https://www.cscjes.org.uk/repository/resource/c07bf015-9b9f-48cb-8409-9a6f6594789c/en**